



DOGFEN YMGYNGHORI STATUDOL

**Cynnydd yn Niferoedd
Disgyblion Ysgol y Gogarth**



11.06.19 – 24.07.19

Contents

Adran	Disgrifiad	Rhif Tudalen
1	Cyflwyniad	1
2	Yr Ymgynghoriad	2
2.1	Ymgynghoreion	2
2.2	Cyfarfodydd	4
2.3	Yngynghoriad gyda plant a phobl ifanc	4
2.4	Sylwadau: cyfeiriad cyswllt a dyddiad cau	4
3	Cefndir i'r Cynnig	4
3.1	Rhagolygon disgyblion a chpasiti	5
3.2	Ansawdd a safonau mewn addyg	6
4	Y Cynnig	7
4.1	Trefniadau cludiant	7
4.2	Staffio	8
4.3	Aseiad effaith cydraddoldebau	8
4.4	Manteision ac anfanteision	8
4.5	Effaith ar ddarpariaeth AAA	9
4.6	Effaith ar Ddarpariaeth iaith Gymraeg	9
4.7	Cyllid	9

5	Pa opsiynau amgen a ystyriwyd?	10
5.1	Cadw nifer y disgyblion yn 200	10
5.2	Cynyddu nifer y disgyblion o 200 i 230	10
6	Esboniad o'r Broses Statudol	10

1. Cyflwyniad

Ysgol y Gogarth yw'r unig ysgol arbennig yng Nghonwy. Mae'n darparu ar gyfer disgyblion sy'n amrywio o 3 i 19 oed ar draws sbectwm eang o anghenion addysgol arbennig cymhleth gan gynnwys: anawsterau dysgu dwys a lluosog, anhwylderau sbectwm awtistig ac anabledd dysgu difrifol.

Ers agor yr Ysgol yn 2014, bu galw sylweddol am leoedd mewn ysgolion arbennig sy'n golygu nad yw capasiti presennol yr ysgol o 200 yn ddigonol i ateb y galw. Mae Cod Trefniadaeth Ysgolion Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i broses ymgynghori statudol gael ei chynnal pan fo capasiti Ysgol Arbennig yn cynyddu o 10% neu fwy. Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r newidiadau arfaethedig ac yn ceisio barn y gymuned, darpar ddefnyddwyr a rhanddeiliaid pwysig eraill.

2. Yr Ymgynghoriad

Cynhelir yr ymgynghoriad rhwng 11.06.19 - 24.07.19

Dyw'r ymgynghoriad ddim ond yn cyfeirio at y cynnydd yn niferoedd disgyblion ysgol arbennig Ysgol y Gogarth. Felly dylai ymatebion i'r ymgynghoriad hwn roi sylwadau ar y cynnig yn unig fel y'i disgrifir yn adran 4.

2.1 Ymgyngoreion

2.2 Bydd y Ddogfen Ymgynghori hon yn cael ei dosbarthu, yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru, i'r ymgyngoreion canlynol yn ystod y cyfnod ymgynghori statudol:

Gofynion y Cod Trefniadaeth 011/2018	Wedi'i ddosbarthu i:
Rhieni (a darpar rieni, lle bo hynny'n bosibl), gofawyr a gwarcheidwaid ac aelodau staff yr ysgolion y mae'r cynigion yn effeithio arnynt	Pennaeth Ysgol y Gogarth i'w ddosbarthu ymhellach i rieni, gofawyr, gwarcheidwaid ac aelodau staff - pennaeth@gogarth.conwy.sch.uk
Yr awdurdod cynnal neu gynnal arfaethedig ar gyfer unrhyw ysgol sy'n debygol o gael ei heffeithio gan y cynigion.	Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn cyflwyno'r cynnig
Unrhyw awdurdod lleol arall (gan gynnwys y rhai yn Lloegr, lle bo'n briodol) sy'n debygol o gael eu heffeithio - gan gynnwys yn achos darpariaeth AAA benodedig unrhyw awdurdod sy'n lleoli neu'n debygol o osod disgyblion ag AAA ynddo;	Cyngor Sir Ddinbych - modernisingeducation@denbighshire.gov.uk Cyngor Gwynedd - ModerneiddioAddysg@gwynedd.llyw.cymru Cyngor Ynys Môn - ysgolionmon@anglesey.gov.uk
Awdurdod yr Eglwys yng Nghymru ac Esgobaeth Gatholig yr ardal lle mae unrhyw ysgol sy'n debygol o gael ei heffeithio.	Awdurdod Esgobaeth yr Eglwys yng Nghymru - Llanelwy - rosalindwilliams@cinw.org.uk Awdurdod Esgobaeth Bangor - anestgrayfrazer@churchinwales.org.uk , Esgobaeth Gatholig Wrecsam - communications@rcdwxm.org.uk
Corff llywodraethu unrhyw ysgol sy'n destun y cynigion	Corff Llywodraethol Ysgol y Gogarth – Lorraine.priestley@gogarth.conwy.sch.uk
Corff Llywodraethol unrhyw ysgolion eraill y mae'r cynnydd yn ystyried sy'n debygol o gael eu heffeithio gan y cynigion.	Cyrrff Llywodraethol pob ysgol yng Nghonwy
Gweinidogion Cymru	Schoolsmanagementdivision3@gov.wales
Aelodau Cynulliad Etholaethol a Rhanbarthol (ACau) ac Aelodau Seneddol (ASau) sy'n cynrychioli'r ardal a wasanaethir gan / y bwriedir ei gwasanaethu gan unrhyw ysgol sy'n destun y cynigion;	mandy.jones@assembly.wales AS rhanbarthol Mark.Isherwood@assembly.wales AS rhanbarthol Llyr.Gruffydd@assembly.wales AS rhanbarthol Michelle.Brown@assembly.wales AS rhanbarthol Janet.Finch-Saunders@Assembly.Wales AC Etholaeth, Aberconwy Jack.Sargeant@assembly.wales AC Etholaeth Alyn a Glannau Dyfrdwy Sian.Gwenllian@assembly.wales AC Etholaeth, Arfon Ken.Skates@assembly.wales AC Etholaeth, De Clwyd

	Darren.Millar@assembly.wales AC Etholaeth, Gorllewin Clwyd Hannah.Blythyn@assembly.wales AC Etholaeth, Delyn Ann.Jones@assembly.wales AC Etholaeth, Dyffryn Clwyd Lesley.Griffiths@assembly.wales AC Etholaeth, Wrecsam rhun.apiorwerth@assembly.wales AC Etholaeth, Ynys Môn guto.bebb.mp@parliament.uk AS, Etholaeth Aberconwy david.jones.mp@parliament.uk AS, Etholaeth Gorllewin Clwyd
Estyn	Meilyr Rowlands – Prif Arolygydd Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru yholiadau@estyn.llyw.cymru
Undebau llafur staff a staff addysgu sy'n cynrychioli athrawon a staff eraill mewn unrhyw ysgol sy'n destun y cynigion.	Unions – National Education union - john.owen@neu.org.uk , NAHT - cymru@naht.org.uk NASUWT - rc-wales-ymru@mail.nasuwt.org.uk UCAC - ucac@ucac.cymru UNISON – branchsecretary@unisonconwy.co.uk GMB – mark.jones@gmb.org.uk
Consortiwm Addysg Rhanbarthol	Arwyn Thomas – Prif Swyddog GwE arwynthomas@gwegogledd.cymru
Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau	Arfon Jones – Comisiynydd Heddlu Gogledd Cymru OPCC@nthwales.pnn.police.uk
Unrhyw gyngor cymuned neu dref ar gyfer yr ardal a wasanaethir gan yr ysgol sy'n destun y cynnig hwn.	Cyngor Tref Llandudno - towncouncil@llandudno.gov.uk
Partneriaeth Cymunedau yn Gyntaf Lleol	Marianne Jackson, Pennaeth y Gwasanaeth Datblygu Cymunedol - marianne.jackson@conwy.gov.uk
Cyrrff Iechyd Perthnasol sydd â diddordeb.	Dr Hamilton Grantham – Paediatregydd Cymunedol Ymgynghorol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr - Hamilton.Grantham@wales.nhs.uk
Arall	Pob aelod o staff Anghenion Dysgu Ychwanegol Holl staff Addysg

Cyhoeddir y ddogfen ymgynghori ar wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn:
www.conwy.gov.uk/educationconsultations

2.2 Cyfarfodydd

Yn ystod y cyfnod ymgynghori, bydd Swyddogion ADY Conwy yn cynnal sesiynau “galw heibio” i drafod y cynigion gyda staff addysgu a chefnogi, rhieni a gofalmwr ac aelodau o'r cyhoedd.

Bydd y sylwadau a dderbynnir yn ystod y cyfnod ymgynghori statudol hwn yn cael eu hystyried gan y Cabinet cyn i Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy benderfynu a ddylid parhau â'r cynnig ai peidio, ac a ddylid cyhoeddi Rhybudd Statudol ar y cynnig.

2.3 Ymgynghori â phlant a phobl ifanc

Gwneir trefniadau hefyd i gael barn y plant a'r bobl ifanc sy'n mynychu Ysgol y Gogarth. Trefnir sesiwn (iau) dynodedig gyda phlant a phobl ifanc yn Ysgol y Gogarth.

2.4 Sylwadau: cyfeiriad cyswllt a dyddiad cau

Gallwch ymateb i'r ymgynghoriad hwn trwy lenwi'r ffurflen ymateb (Atodiad A) ar ddiwedd y ddogfen hon. Cyfeiriwch yr holl ymatebion at:

E-bost: School.Modernisation@conwy.gov.uk

Post: Gwasanaethau Addysg

PO Box 1

Conwy

LL30 9GN

Nodwch - Rhaid i bob ymateb, boed drwy'r post neu drwy e-bost, gyrraedd y Gwasanaethau Addysg erbyn **17:00** fan bellaf **ar 24.07.19**

3. Cefndir i'r Cynnig

(Disgrifiad Manwl o'r *Status Quo*)

Mae'r cynnig hwn yn ymwneud ag Ysgol y Gogarth, Ffordd Nant y Gamar, Llandudno, Conwy, LL30 1YE.

Mae Ysgol y Gogarth yn ysgol arbennig Gymunedol. Mae'n darparu ar gyfer disgyblion (3-19 oed) ar draws sbectrwm eang o anghenion addysgol arbennig cymhleth gan gynnwys: anawsterau dysgu dwys a lluosog, anhwylderau sbectrwm awtistig ac anableded dysgu difrifol. Mae'n ffurfio'r haen fwyaf dwys o gontinwmm sefydledig o gefnogaeth anghenion dysgu ychwanegol yng Nghonwy.

3.1 Rhagolygon niferoedd disgyblion a maint yr ysgol

Yn bresennol mae gan yr ysgol le i 200 o ddisgyblion. Mae hyn yn cynrychioli cynnydd o'r 185 o lefydd a gyhoeddwyd yn wreiddiol pan adeiladwyd yr ysgol yn 2014. Daeth y cynnydd i 200 o ganlyniad i Achos Busnes a wnaed ym mis Hydref 2015 i gynyddu nifer y lleoedd a ariennir i ddisgyblion yn Ysgol y Gogarth o 185 i 200. Gwnaed yr achos hwn yn dilyn cydnabyddiaeth o gynnydd cynyddol yn nifer y disgyblion y tu hwnt i'r lleoedd a ariennir, a'r gost i'r awdurdod o orfod lleoli plant mewn darpariaeth arbenigol y tu allan i'r sir. Gan fod y cynnydd hwn mewn capasiti yn llai na 10% o'r capasiti gwreiddiol a llai na 20 o ddisgyblion, nid oedd hyn yn gofyn am gynnal Ymgynghoriad Statudol.

Er gwaethaf gweithio'n agos gydag Ysgol y Gogarth i gefnogi cynhwysiad, mae nifer y disgyblion sy'n mynychu'r ysgol wedi parhau i gynyddu. Mae'r tabl isod yn dangos y tueddiad mewn niferoedd yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

	Lleoedd wedi'u cynllunio (a ariennir)	Disgyblion Gwirioneddol PLASC Medi cyfwerth ag amser llawn	Disgyblion gwirioneddol PLASC Ionawr cyfwerth ag amser llawn
2013-14	170	178	185
2014-15	185	191	200
2015-16	185	202	208
2016-17	200	208	216
2017-18	200	219.5	217.5
2018-19	230	230	234

Gwelwyd y cynnydd hwn o'r cyfnod cyn-ysgol, gyda nifer y plant ag anawsterau sylweddol mewn dwy agwedd neu fwy o'u datblygiad yn cael eu cyfeirio at Ganolfan Datblygu Plant Conwy fel yn y tabl drosodd:

	Disgyblion yn mynychu CDP
2009-10	18
2010-11	23
2011-12	30
2012-13	33
2013-14	40
2014-15	38
2015-16	46
2016-17	47
2017-18	43
2018-19	29 (hyd yma)

Gan fod y cynnydd mewn niferoedd bellach yn fwy na 10% o'r llefydd ysgol gwreiddiol a mwy nag 20 o ddisgyblion, mae angen cynnal Ymgynghoriad Statudol ar y cynnydd arfaethedig yn y disgyblion y mae'r ysgol yn gwneud darpariaeth ar eu cyfer.

Mae'r cynnydd a welwyd hyd yn hyn wedi cael ei ddarparu trwy adleoli staff Gofal Cymdeithasol ac Addysg a oedd wedi'u lleoli yn Ysgol y Gogarth a chreu dwy ystafell ddsbarth dros dro o fewn y gofod y maent wedi bod yn ei ddefnyddio.

Bydd estyniad parhaol i Ysgol y Gogarth yn cael ei adeiladu ar gyfer y niferoedd yn y dyfodol.

3.2 Ansawdd a Safonau mewn Addysg

Arolygwyd Ysgol y Gogarth yn fwyaf diweddar gan Estyn ym mis Hydref 2017, gan dderbyn "Rhagorol" ym mhob Maes Arolygu. Mae'r Adroddiad Arolygu yn crynhoi "*Mae disgyblion yn Ysgol y Gogarth yn ymateb yn gadarnhaol iawn i strategaethau*

hynod effeithiol yr ysgol i gefnogi datblygiad eu medrau cyfathrebu ac annibyniaeth. O ganlyniad, mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn iawn dros gyfnod o safbwynt eu hanghenion a'u galluoedd unigol. Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwrtais ac yn dangos parch tuag at ei gilydd, staff ac ymwelwyr. Mae cwricwlwm yr ysgol yn bodloni anghenion disgyblion yn arbennig o dda. Mae'r dewis helaeth o brofiadau dysgu yn hybu datblygiad gallu ac aeddfedrwydd disgyblion yn effeithiol iawn wrth iddynt symud ymlaen drwy'r ysgol. Mae athrawon, cynorthwywyr addysgu a staff arbenigol yn cydweithio'n eithriadol o dda i nodi anghenion unigol disgyblion a sicrhau bod gwersi'n adeiladu'n systematig ar eu galluoedd a'u diddordebau. Mae'r ysgol yn gweithio'n llwyddiannus iawn gyda rhieni a phartneriaid i sicrhau ei bod yn cynnig cyfleoedd ysgogol i ddisgyblion ddatblygu medrau sy'n eu paratoi'n effeithiol iawn at fywyd yn y dyfodol. Mae'r pennaeth a'r uwch dim arwain yn dangos arweinyddiaeth ragorol. Maent wedi datblygu gweledigaeth strategol gydlynol ar gyfer yr ysgol, sy'n gosod anghenion pwysicaf disgyblion wrth wraidd pob agwedd ar waith yr ysgol. ”

Mae Ysgol y Gogarth yn parhau i fod yn un o ddim ond 2 ysgol yng Nghymru sydd wedi ennill achrediad y Gymdeithas Awtistiaeth Genedlaethol a hi oedd yr ysgol gyntaf yng Nghymru i gyflawni'r wobr hon.

Bydd y cynnig yn caniatáu i Ysgol y Gogarth barhau i ddarparu addysg o safon ardderchog a bydd y gofod ychwanegol yn caniatáu i ddisgyblion gael eu haddysgu mewn amgylchedd priodol o faint digonol ar gyfer eu hanghenion. Bydd hyn yn gwella eu lles yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol.

Bydd y gofod ychwanegol yn caniatáu i athrawon wella profiadau dysgu'r disgyblion ac ehangu ar yr ystod o brofiadau sy'n agored iddynt.

4. Beth yw'r Cynnig?

Bod nifer y disgyblion y gall Ysgol y Gogarth wneud darpariaeth ar eu cyfer yn cynyddu o 200 i 260.

Pe bai'r cynnig yn cael ei gytuno, byddai nifer y disgyblion y gall Ysgol y Gogarth wneud darpariaeth ar eu cyfer yn cynyddu i 260 pan fydd yr Ymgynghoriad wedi'i gwblhau. Mae hyn yn debygol o fod yn nhymor yr Hydref yn y flwyddyn ysgol 2019-20. Cynigir felly bod capasiti cyhoeddedig yr ysgol yn cynyddu o 1 Ionawr, 2020.

Ochr yn ochr â'r cynnydd mewn capasiti, mae cynigion ar y gweill i wneud darpariaeth ddosbarthiadau ychwanegol ar gael yn yr ysgol trwy estyniad 4 ystafell ddosbarth. Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi cymeradwyo cyllid cyfalaf ar gyfer estyniad o'r fath mewn egwyddor ac mae gwaith prosiect cychwynnol wedi dechrau.

4.1 Trefniadau Cludiant

Bydd trefniadau cludiant yn parhau fel ag y maen't, gyda'r holl ddisgyblion yn cael eu cludo mewn tacsï i Ysgol y Gogarth. Rydym yn rhagweld na ddylai niferoedd tacsï

gynyddu'n sylweddol, gan fod y rhan fwyaf ohonynt yn gerbydau aml-sedd ac y byddent yn gallu darparu ar gyfer y niferoedd cynyddol o ddisgyblion.

4.2 Staffio

Darparwyd y staffio ychwanegol sydd ei angen i fodloni'r niferoedd disgyblion presennol trwy Achos Busnes refeniw llwyddiannus. Petai niferoedd yn parhau i gynyddu yn y dyfodol, byddai angen ystyried unrhyw anghenion staffio ychwanegol fel rhan o Achos Busnes pellach.

4.3 Asesiad Effaith Cydraddoldeb

Cynhelir Asesiad Effaith Cydraddoldeb llawn, gan gynnwys Asesiad Effaith Cymunedol fel rhan o'r cyfnod ymgynghori statudol hwn. Bydd yr asesiad llawn yn cael ei gynnwys yn yr adroddiad ymgynghori a fydd yn dilyn y cyfnod ymgynghori hwn.

4.4 Manteision ac Anfanteision

Nid oes unrhyw anfanteision amlwg i gynyddu nifer y disgyblion yn Ysgol y Gogarth i 260 a darparu lle priodol trwy ymestyn yr adeilad presennol.

Mae Uwch Dîm Arweinyddiaeth yr Ysgol a'r Corff Llywodraethol wedi ymrwmo i gynyddu gallu disgyblion ac yn credu, gyda chyllid, lle a chynllunio priodol, na ddylid cael unrhyw effaith andwyol ar safonau, profiadau addysgu a dysgu, na chymorth ac arweiniad gofal, yr hyn oll a farnwyd yn Ardderchog yn Arolwg Estyn diweddar yr ysgol.

Y manteision a ragwelir yw y bydd pob dysgwr yng Nghonwy y nodwyd bod angen darpariaeth arbenigol arno yn cael mynediad teg i ddarpariaeth ragorol y Sir ei hun.

Bydd yr Awdurdod Lleol a rhieni a disgyblion hefyd yn elwa oherwydd os na ellir cynyddu gallu'r ysgol, byddai rhai disgyblion a'u rhieni yn wynebu cael eu rhoi mewn ysgolion y tu allan i ardal Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Gallai hyn fod yn aflonyddgar i'r disgybl a'r teulu ond byddai hefyd yn gostus i'r Cyngor.

Yn ogystal, gellir defnyddio'r cynnydd mewn staffio a llety ar gyfer yr ysgol i gefnogi gweledigaeth strategol yr ysgol o ran datblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn yr ysgol, a Strategaeth Cymraeg mewn Addysg yr Awdurdod sy'n cynnwys yr amcan i sicrhau bod yr holl ddarpariaeth ADY yn yn deg ac yn deg i bob dysgwr boed Cymraeg neu Saesneg yn iaith gyntaf.

Mae risg y bydd y galw am leoedd mewn Ysgolion Arbennig yn parhau i dyfu y tu hwnt i'r capasiti arfaethedig newydd. Os felly, bydd angen i ddatblygiadau pellach ddigwydd yn ystod y blynyddoedd nesaf.

4.5 Effaith ar AAA

Byddai'r cynnig i gynyddu capasiti ac ymestyn yr adeilad yn sicrhau bod yr holl blant a phobl ifanc ag anableddau dysgu difrifol a chymhleth yng Nghonwy yn cael mynediad cyfartal i'r un amgylchedd dysgu a darpariaeth effeithiol o ansawdd uchel yng Nghonwy.

Y manteision canfyddedig yw y bydd pob dysgwr yng Nghonwy y nodwyd bod angen darpariaeth arbenigol arno yn cael mynediad teg i ddarpariaeth ragorol y Sir ei hun.

O fis Medi 2019, mae'r Awdurdod yn gweithio gyda'r Ysgol i chwilio am opsiynau eraill ar gyfer derbyn y galw ychwanegol dros dro.

Fodd bynnag, mae'r Awdurdod Lleol bellach yn dechrau cyfnod o ymgynghoriad cyhoeddus ar y cynnydd tymor hir yn niferoedd disgyblion Ysgol y Gogarth, yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion, ac er mwyn rhoi i ddisgyblion, rhieni / gofalwyr ac aelodau o'r cyhoedd yr cyfle i ddysgu am gynlluniau arfaethedig i ymestyn adeilad presennol yr ysgol i greu llety mwy parhaol a phwrpasol ar gyfer y niferoedd ychwanegol o ddisgyblion.

4.6 Effaith ar Ddarpariaeth Iaith Gymraeg

Gellir defnyddio'r cynnydd mewn staffio a lle yn yr ysgol i gefnogi gweledigaeth strategol yr ysgol o ran datblygu darpariaeth cyfrwng Gymraeg yn yr ysgol, a Chynllun Strategol Gymraeg mewn Addysg yr Awdurdod sy'n cynnwys yr amcan i sicrhau bod yr holl ddarpariaeth ADY yn deg ac yn gytbwys i bob dysgwr boed ei iaith gyntaf yn Gymraeg neu Saesneg.

4.7 Cyllid

Er mwyn cyrraedd y cynnydd arfaethedig o 260, bydd angen adeiladu estyniad pedwar ystafell ddosbarth i'r adeilad presennol.

Roedd yr estyniad arfaethedig yn destun Achos Busnes llwyddiannus i Lywodraeth Cymru a ddyrannodd £994,560 i'r prosiect. Cyfran Conwy o gost y prosiect yw £240,640. Bydd y swm sy'n weddill yn cael ei dalu gan Lywodraeth Cymru. Roedd yr achos busnes referniw a'i gwnaeth yn bosibl cyflogi digon o staff i addysgu 230 o ddisgyblion yn cynnwys darpariaeth o £ 11,000 i'w ddefnyddio i ad-dalu benthyciadau dros gyfnod o 40 mlynedd.

5. Pa opsiynau eraill sydd wedi'u hystyried?

5.1 Dewis 1 - Cynnal nifer y disgyblion, y gall Ysgol y Gogarth ddarparu ar eu cyfer, yn 200

Byddai cynnal y sefyllfa bresennol yn golygu na fyddai dysgwyr yng Nghonwy y nodwyd bod angen darpariaeth arbenigol arnynt yn cael mynediad teg i ddarpariaeth ragorol y Sir ei hun. Yn ogystal â bod yn anghyfartal, mae hyn yn debygol o arwain at leoliadau allan o'r Sir drud, sy'n golygu y gall fod yn rhaid i blant deithio'n bell i dderbyn y ddarpariaeth addysgol sydd ei angen arnynt, nad yw'n unol â gweledigaeth y Sir ar gyfer cefnogi plant a pobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol.

5.2 Dewis 2 – Cynyddu nifer y disgyblion y gall Ysgol y Gogarth ddarparu ar eu cyfer o 200 i 230

Byddai cynyddu nifer y disgyblion o 200 i 230 yn golygu na fyddai rhai dysgwyr yng Nghonwy y nodwyd bod angen darpariaeth arbenigol arnynt yn cael mynediad teg i ddarpariaeth ragorol y Sir. Yn ogystal â bod yn anghyfartal, mae hyn yn debygol o arwain at leoliadau allan o'r Sir drud, sy'n golygu y gall fod yn rhaid i rai plant deithio'n bell i dderbyn y ddarpariaeth addysgol sydd ei angen arnynt, nad yw'n unol â gweledigaeth y Sir ar gyfer cefnogi plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol.

Y nifer gwirioneddol o ddisgyblion ym mis Ionawr, 2019 oedd 234 (Cyfwerth ag Amser Llawn)

Os bydd unrhyw ymgynghoreion yn dymuno cynnig unrhyw gynnydd arall, dylent wneud hynny gan ddefnyddio'r ffurflen yn Atodiad A ar ddiwedd y ddogfen hon

6. Esboniad o'r Broses Statudol

Cynhaliwyd cyfnod o ymgynghori ymlaen llaw gyda'r Corff Llywodraethol a Phennaeth Ysgol y Gogarth cyn cyflwyno adroddiad yn gofyn am ganiatâd y Cabinet i ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol mewn perthynas â'r cynnydd y gofynnir amdano yn y nifer o ddisgyblion y gall yr ysgol ddarparu ar eu cyfer.

Cyflwynwyd yr adroddiad hwn i'r Cabinet ar 14.05.19, a oedd yn cefnogi'r argymhelliad i gynnal cyfnod ymgynghori statudol, gan ymgynghori ar y cynnig uchod a sicrhau bod buddiannau'r holl bartïon yn cael eu hystyried a'u trafod.

Dyma'r ddogfen ymgynghori sy'n rhoi manylion cefndir y cynnig i ystyried y cynnydd yn nifer y disgyblion yn Ysgol y Gogarth ac ymestyn yr adeilad ysgol presennol i gynnwys y niferoedd uwch hyn. Cyhoeddir y ddogfen ar 11 Mehefin 2019, a gellir derbyn ymatebion tan 17:00 ar 24 Gorffennaf. Ar hyn o bryd, ni fydd yr ymatebion hyn yn cael eu cyfrif fel gwrthwynebiadau, ond sylwadau. Os yw unrhyw un yn dymuno gwrthwynebu, rhaid iddynt wneud hynny ar ôl cyhoeddi'r hysbysiad statudol (petai un

yn cael ei gyhoeddi). Yn ystod yr ymgynghoriad hwn, gall ymatebion gynnwys sylwadau neu gwestiynau ar unrhyw agwedd ar y cynnig ac awgrymu opsiynau amgen.

Yn dilyn y cyfnod ymgynghori statudol hwn, bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet lle penderfynir a ddylid bwrw ymlaen â'r estyniad arfaethedig i'r adeilad ysgol presennol. Bydd yr adroddiad ymgynghori hwn yn crynhoi'r sylwadau a'r cwestiynau a godwyd gan ymgynghoreion a bydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor. Bydd yr holl randdeiliaid, fel y rhestrir uchod, yn cael gwybod bod yr adroddiad ymgynghori ar gael.

Os bydd y Cabinet yn penderfynu bwrw ymlaen ar ôl ystyried yr adroddiad ymgynghori, bydd yn rhaid cyhoeddi'r opsiwn / cynnig a ffafrir ar ffurf hysbysiad statudol. Cyhoeddir yr hysbysiad ar ddiwrnod ysgol a bydd "cyfnod gwrthwynebu" o 28 diwrnod ar ôl cyhoeddi'r cynnig. Gall unrhyw un wrthwynebu'r cynnig. Cyhoeddir yr hysbysiad ar wefan Cyngor Conwy ac ym mhrif dderbynfa Ysgol y Gogarth. Bydd copïau hefyd yn cael eu hanfon i'r ysgolion i'w dosbarthu i ddisgyblion, rhieni, gofalwyr a gwarcheidwaid, staff a llywodraethwyr. Bydd copïau caled hefyd ar gael ar gais gan Wasanaethau Addysg Conwy.

Ar ôl i'r cyfnod gwrthwynebu ddod i ben, bydd y Cyngor yn cyhoeddi crynodeb o'r gwrthwynebiadau statudol ac ymateb y Cyngor i'r gwrthwynebiadau mewn "adroddiad gwrthwynebu". Fel uchod, bydd yr holl randdeiliaid allweddol yn cael gwybod am argaeledd yr adroddiad hwn a ble y gellir cael gafael arno.

Bydd y penderfyniad terfynol am yr adroddiad gwrthwynebiad yn cael ei wneud gan Gabinet Conwy o fewn 28 diwrnod i ddiwedd y cyfnod gwrthwynebu. Pan fydd y Cabinet wedi gwneud ei benderfyniad terfynol, bydd y penderfyniad yn cael ei wneud yn ysgrifenedig ynghyd â'r rhesymau dros y penderfyniad. Bydd y penderfyniad yn cael ei osod ar wefan y Cyngor a bydd yr holl randdeiliaid allweddol yn cael eu hysbysu.

Mewn rhai achosion, yn dilyn penderfyniad terfynol y Cabinet, mae'n bosibl i'r cyrff canlynol gyfeirio'r cynnig at Weinidogion Cymru i'w ystyried:

- Awdurdod Lleol arall yr effeithir arno gan y cynnig
- Corff crefyddol priodol ar gyfer unrhyw ysgol yr effeithir arni
- Corff Llywodraethol ysgol wirfoddol neu sefydledig sy'n destun cynnig
- Unrhyw Ymddiriedolaeth sy'n dal tir ar ran ysgol wirfoddol neu ysgol sefydledig sy'n destun cynnig

Mae angen i'r cyrff sy'n cyfeirio'r cynnig nodi'r rheswm pam eu bod o'r farn bod penderfyniad yr Awdurdod Lleol yn anghywir. Bydd Gweinidogion Cymru yn penderfynu a yw'r cynnig yn effeithio ar y cyrff ac a oes angen iddynt ystyried y cynnig.

Atodiad A

Ymgynghoriad

Cynnig i gynyddu nifer y disgyblion all fynychu Ysgol y Gogarth o 200 i 260

DYCHWELWCH OS GWELWCH YN DDA DIM HWYRACH NA 17:00 ar y 24ain
Gorffennaf, 2019

I: Dafydd Ifans, Pennaeth Gwasanaethau Addysg Dros Dro,
Post: Gwasanaethau Addysg
Blwch post 1
Conwy
LL30 9GN

E-mail: School.Modernisation@conwy.gov.uk

Rwy'n:

Riant plentyn sy'n bresennol yn yr ysgol

Riant i blentyn oedd yn flaenorol
yn yr ysgol

Riant plentyn mewn ysgol arall

Aelod o staff yn yr ysgol

Aelod o staff mewn ysgol arall

Lywodraethwr yn yr ysgol

Lywodraethwr mewn ysgol arall

Plaid arall â diddordeb

Enw'r ysgol arall neu blaid diddordeb

Ydych chi wedi darllen y ddogfen ymgynghori? DO / NADDO (Dilëer fel y bo'n briodol)

A wnaethoch chi fynychu'r digwyddiad cyhoeddus? DO / NADDO (Dilëer fel y bo'n briodol)

Ydych chi o blaid y cynnig i gynyddu'r nifer o ddisgyblion y gwneir darpariaeth ar eu cyfer i 260?

Ydwyf Nacydwyf

Ychwanegwch unrhyw sylwadau sydd gennych am y cynnig :-

A ydych yn dymuno cael gwybodaeth trwy e-bost am yr Adroddiad Ymgynghori unwaith mae wedi'i gyhoeddi ar dudalen gwe Gwasanaethau Addysg Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy?

Ydw Na

Os 'Ydw', darparwch gyfeiriad e-bost: _____

Dyddiad cwblhau yr holiadur: _____

_____ Er defnydd Swyddfa yn unig _____

Dyddiad derbyn yr holiadur: _____

Dyddiad ei fewnbynnu ar y bâs data _____ Llofnod: _____

Cyfeirnod: _____

Amddiffyn Data Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yw'r rheolwr data at bwrpas Rheoliadau Amddiffyn Data Cyffredinol 2016/Deddf Amddiffyn Data 2018. Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy'n rheoli'r wybodaeth rydych yn ei ddarparu mewn modd sy'n cydymffurfio â'r Rheoliad Amddiffyn Data Cyffredinol 2016 / Deddf Amddiffyn Data 2018. Ni fydd yr wybodaeth rydych yn ei ddarparu ond yn cael ei ddefnyddio i'ch darparu ag adborth ar yr uchod. Er mwyn gweld yr hysbysiad preifatrwydd a mwy ewch i <http://www.conwy.gov.uk/en/Council/Access-to-Information/Privacy-Notices/How-Conwy-County-Borough-Council-uses-your-Information.aspx>